



# Amser Maith Maith yn Ôl


## Y DYNIAETHAU

- Cymharu bywyd bob dydd yn Oes y Tuduriaid â bywyd bob dydd heddiw yn gyffredinol.
- Cymharu bywyd bob dydd pobl gyfoethog â bywyd y werin yn Oes y Tuduriaid, e.e. bywyd Meistres Bowen a Meistr Siôn â bywyd Elen a Mrs Ifans.
- Bwyd/siopa ddoe a heddiw, e.e. tyfu llysiau, cadw anifeiliaid, ieir, bwydo teulu'r Bowenaid, morwynion, gweision, dim siopau i brynu bwyd.
- Gwaith ddoe a heddiw, e.e. gwaith Elen y forwyn (casglu wyau, tyfu a chasglu llysiau, coginio, glanhau), Siôn yn chwarae ag wy, cael addysg, i fod i ymarfer darllen a llawysgrifen. 
- Cosbau ddoe a heddiw, e.e. Oes y Tuduriaid – cyffion (stocs) – taflu llysiau at leidr er mwyn codi cwylydd arno. 

## LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU

- Dyddiadur diwrnod Elen/Siôn – e.e. codais yn gynnar, edrychais, cefais, yna gwelais, rhedais, teimlais.
- Rhestr – creu rhestr o wahanol ffyrdd o goginio wyau, e.e. wy wedi ffrio.
- Cyfarwyddiadau syml – sut i ferwi wy?
- Deialog syml rhwng Elen a Siôn, e.e. “Elen, mae gen i gynllun!”
- Egluro ar lafar sut roedd lladron yn cael eu cosbi yn Oes y Tuduriaid, e.e. cael eu rhoi mewn cyffion.
- Trafod digwyddiadau'r rhaglen a rhoi'r brawddegau yn eu trefn. *Gweithgaredd rhyngweithiol.*

## Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

- Drama – chwarae rôl – Elen a Siôn yn siarad â'i gilydd wrth ymyl y cwt ieir; Siôn yn dangos yr wy gyda chroes arno i Mrs Ifans a Meistres Bowen; Siôn yn dweud wrth Elen, ‘Mae gen i gynllun...’
- Cerddoriaeth – creu cerddoriaeth i gyd-fynd â'r ddrama, e.e. Siôn yn taflu'r wy; Siôn ac Elen yn chwilio am yr wyau.
- Braslunio wyau – tŷn, lliw (e.e. wyau brown golau, brown tywyll). 

Cyfes 2  
Raglen  
2

## Oes y Tuduriaid Dwyn Wyau

### MATHEMATEG A RHIFEDD

- Mesur – gweithgareddau cyfrif, mesur, pwysu cynhwysion ar gyfer gwneud rysâit yn defnyddio wyau.
- Amser – Cyfrifo amser coginio'r rysâit; datrys problemau syml ar amser coginio ryseitau gwahanol yn cynnwys wyau.
- Mesur – lluniau o stociau gwahanol faint – mesur hyd a lled; perimedr.

## GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

- Arbrofi â gwrthrychau sy'n arnofio ac yn suddo.
- Dylunio a chreu model syml o'r cyffion.
- O ble daw ein bwyd ni? (e.e. wyau – ieir; llaeth – gwartheg)
- Pam mae wyau'n dda i ni? (e.e. protein)
- Ymchwilio i weld beth gellir ei wneud gydag wyau, e.e. cacen, pryd o fwyd sawrus.
- Coginio rysâit syml sy'n defnyddio wyau.

## IECHYD A LLES

- Sut rydych chi'n teimlo pan rydych chi'n cael bai ar gam? Pam?
- Pam mae'n bwysig ymddiheuro? Sut rydych chi'n teimlo ar ôl cyfaddef a dweud sori? Pam?
- Chwarae gêm – helpa drysor cuddio wyau; taflu peli drwy'r tyllau yn y cyffion.



Rhestr ddwyieithog o gwestiynau allweddol, geirfa, termau allweddol.

Allwch chi ddod o hyd i...?

*Can you find...?*

Beth sy'n digwydd?

*What's happening?*

Beth allwch chi ei ddweud am...?

*What can you say about...?*

Beth wnaethoch chi ei ddarganfod am...?

*What did you find out about...?*

Beth arall hoffech chi ei wybod am...?

*What else would you like to find out about ...?*

Tuduriaid      *Tudors*

lleidr      *thief*

Meistr      *Master*

gwerthu      *sell*

wy      *egg*

ymddiheuro      *apologise*

wyau      *eggs*

cyfaddef      *admit*

dwyn      *steal*

cosb      *punishment*

